# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

## RHAN 2

DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

*Cymhwyso'r Rhan a'i heffaith*

### 4 Effaith darpariaethau'r Rhan hon

(1) Pan fo'r Rhan hon yn gymwys i **[**[F1]Ddeddf gan Senedd Cymru**]** neu is-offeryn Cymreig, mae'r darpariaethau yn y Rhan hon yn cael effaith mewn perthynas â'r Ddeddf honno neu'r offeryn hwnnw, ac eithrio i'r graddau—

- (a) y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb, neu
- (b) y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

(2) Nid yw'r eithriad yn is-adran (1) yn gymwys i adran 5 (statws cyfartal testunau deddfwriaeth ddwyieithog).

(3) Nid yw paragraff (b) o'r eithriad hwnnw yn gymwys i—

- (a) adran 10 (cyfeiriadau at amser o'r dydd);
- (b) adran 28 (cymhwyso deddfwriaeth Cymru i'r Goron);
- (c) adran 33 (nid yw diddymiadau na dirymiadau yn adfer cyfraith a ddiddymwyd, a ddirymwyd neu a ddilëwyd eisoes).

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Deddf wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(8)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 mewn grym ar 11.9.2019 at ddibenion penodedig, gweler **a. 44(1)(c)**

**I2** A. 4 mewn grym ar 1.1.2020 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2019/1333, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, Adran 4.